

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 21 TACHWEDD 2018 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:15)

Aelodau CFFDLC yn bresennol: Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod),
Theo Joloza (Aelod) Julie James (Aelod
Annibynnol)

Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru: Anthony Ford

Cynrychiolydd Deloitte yn bresennol: Ian Howse

Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol: Lisa James

Swyddogion CFFDLC yn bresennol: Steve Halsall (Prif Weithredwr), Matthew
Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), David Carr
(Rheolwr Cyllid).

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Derwyn Owen (Swyddfa Archwilio Cymru), Mark Jones (Swyddfa Archwilio Cymru), Lauren Parsons (Deloitte) a David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes).

2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2018

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2018.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar y safbwynt ar faterion yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

4.2 Nododd y Pwyllgor adroddiadau archwilio TGCh LIC ar gyfer 2017-18 sydd wedi'u hatodi i'r papur. Roeddent o'r farn bod yr adroddiadau'n rhoi sicrwydd gwerthfawr i CFFDLC, a dylid gofyn amdanynt gan LIC eto ar gyfer 2018-19 i gwmpasu'r cyfnod pan roedd CFFDLC yn rhan o system TGCh Atos LIC o hyd, cyn trosglwyddo i'w system TGCh ei hun ym mis Hydref 2018.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019

4.3 Crybwyllodd Matthew Redmond fod cyfnod 1 prosiect TGCh CFFDLC wedi'i gwblhau erbyn hyn. Roedd hyn yn golygu bod CFFDLC wedi ymadael â system TGCh Atos LIC erbyn hyn ac wedi ymfudo'n llawn i'w system TGCh ei hun gyda chymorth gan Cymwysterau Cymru (CC), a oedd yn parhau i ddarparu ail linell o gymorth TGCh. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiadau ar Ddiogelwch Data TG a fyddai'n cael eu

cyflwyno yng nghyfarfodydd y PAAR yn y dyfodol yn cael eu llunio a'u cyflwyno gan CC, a byddant yn cynnwys gwybodaeth sylweddol fwy na'r hyn a oedd yn ofynnol dan drefniadau TGCh blaenorol Atos LIC. **Cytunwyd** y byddai angen i'r adroddiadau diogelwch data TGCh newydd gael eu hadlewyrchu yn Natganiad Llywodraethu blynyddol CFFDLC.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 25 Chwefror 2019

- 4.4 Crybwyllodd Ian Howse fod yr adolygiad allanol cyfnodol o archwilio mewnol bellach wedi'i gwblhau. Nododd y pwyllgor y byddai angen i'r adolygiad hwn gael ei gynnal eto ymhen 5 mlynedd i gydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Dywedodd Ian Howse y byddai'n anfon yr adroddiad ar yr adolygiad at CFFDLC cyn gynted ag y byddai ar gael.

Gweithredu: Deloitte **Erbyn:** 25 Chwefror 2019

5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 5.1 Nododd a **chytunodd** y Pwyllgor â'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-19. **Cytunwyd** y byddai Cynlluniau Gwaith yn y dyfodol yn cynnwys adroddiadau ar Ddiogelwch Data TGCh, yn ogystal â'r adroddiadau ar ddigwyddiadau diogelwch TG.

Gweithredu: Rheolwyr Cyllid **Erbyn:** 25 Chwefror 2019

6. Archwiliad Mewnol: Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2018-19

- 6.1 Crybwyllodd Ian Howse fod y gwaith archwilio a gynhaliwyd yn Awst 2018 wedi cwmpasu'r meysydd Prynu, Symiau Taladwy a Chaffael, Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg. Manylwyd ar ganfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiad, a oedd yn rhoi sgoriau sicrwydd Sylweddol ar gyfer y ddau faes a gynhwyswyd yn yr archwiliad. Cododd yr adroddiad ddau argymhelliad â blaenoriaeth isel, sef:

- sefydlu rhestr o lofnodyddion awdurdodedig sy'n cynnwys lefelau tâl cymeradwy ac yn cael ei diweddarau; a
- diweddarau'r rhestr contractau ar gyfer pob contract newydd a roddir gan y Comisiwn, ac adolygu'r rhestr contractau'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw contractau i'w haildendro.

- 6.2 Derbyniwyd y ddau argymhelliad a dyrannwyd dyddiadau gweithredu ar eu cyfer.

- 6.3 Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn nodi, ar ôl ymadawiad cyn aelod staff, mai'r Rheolwr Cyllid yw'r unig aelod staff sydd â mynediad at feddalwedd cyfrifyddu Sage. **Cytunwyd** y dylai CFFDLC ymchwilio i'r mater o gynyddu mynediad at Sage cyn gynted â phosibl.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 25 Chwefror 2019

7. Adolygiad o'r Ymarfer Gwirio Asedau sefydlog

- 7.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad ymarfer dilysu asedau sefydlog blynyddol CFFDLC. Cyfrifwyd am yr holl asedau, a'r unig fater a ddaeth i'r amlwg oedd cael cadarnhad gan Aelodau o asedau TG sy'n cael eu cadw oddi ar y safle. Cafwyd y cadarnhad hwn gan Aelodau yng nghyfarfod CFFDLC a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2018.

8. Adolygiad o Holiadur Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 8.1 Crybwyllwyd bod yr holiadur ar gyfer 2018-19 wedi'i anfon at Aelodau i'w gwblhau'n ddiweddar. Byddai canlyniad ymarfer 2018-19 ac unrhyw faterion a amlygir yn cael eu hystyried yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2019.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 25 Chwefror 2019

9. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

- 9.1 Ystyriodd y Pwyllgor gynnydd yn erbyn yr argymhellion archwilio mewnol ac allanol sy'n weddill. Nodwyd bod yr argymhellion sy'n weddill ar gyfer 2012-13 a 2014-15 yn ymwneud ag arolygon y Comisiwn, ac felly nid oedd modd darparu tystiolaeth eu bod wedi'u rhoi ar waith nes bod gwaith arolygu sylweddol wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, yn sgil dechrau'r archwiliad mewnol o arolygon etholiadol a seneddol yn Ionawr 2019, disgwylir i weithrediad yr argymhellion hyn gael ei gadarnhau erbyn diwedd 2018-19.
- 9.2 O ran y ddau argymhelliad sy'n weddill o 2016-17 yn ymwneud â chyfyngu mynediad at ffeiliau personél ac adnoddau dynol ar y system TG a chael datganiad clir o gyfrifoldebau yn ymwneud â'r trefniadau TGCh newydd, disgwylir i'r argymhellion hyn gael eu rhoi ar waith erbyn y dyddiad cau, sef 31 Ionawr 2019.
- 9.3 Disgwylir y byddai'r argymhelliad sy'n weddill o archwiliad allanol 2017-18, sef y dylai trefniadau TGCh newydd y Comisiwn gynnwys rheolaethau cadarn ar gyfer storio a chadw ffeiliau wrth gefn, yn cael ei roi ar waith erbyn y dyddiad cau, sef 31 Ionawr 2019.
- 9.4 Roedd yr argymhelliad o archwiliad allanol 2017-18, sef y dylai'r Comisiwn gynnwys datganiad o genhadaeth yn ei Gynllun Corfforaethol, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.
- 9.5 Roedd yr argymhellion o archwiliad mewnol 2017-18, sef y dylai'r Comisiwn adolygu a diweddarau ei bolisiâu staff a'i Bolisi Teithio a Chynhaliaeth, i fod i gael eu rhoi ar waith erbyn 31 Mawrth 2019. Nodwyd bod yr adolygiad o'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth wedi'i ohirio gan yr anawsterau yn ymwneud ag yswiriant teithio, ac y byddai angen ei drafod yn un o gyfarfodydd CFfDLC yn y dyfodol.
- 9.6 Roedd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2018-19, sef y dylid sefydlu rhestr o'r llofnodwyr awdurdodedig a sicrhau ei bod yn gyfredol, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.
- 9.7 Roedd yr argymhelliad o archwiliad mewnol 2018-19, sef y dylid sicrhau bod rhestr contractau CFfDLC yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd, wedi'i dderbyn â dyddiad gweithredu o 31 Rhagfyr 2018.

10. Adroddiad Rheoli Risg

10.1 Ystyriwyd y cofrestrau a'r polisi risg cyfredol. Adroddwyd ar fanylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

10.2 Nodwyd bod y gofrestr risg TGCh newydd wedi'i drafftio gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar ôl gweithredu'r trefniadau TGCh llwyddiannus newydd. **Cytunwyd** y byddai'r PAAR yn ystyried y Gofrestr Risg TGCh mewn dau gyfarfod y flwyddyn.
Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr **Erbyn:** 25 Chwefror 2019

11. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

11.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 23 Hydref 2018. Nodwyd y byddai angen i Lywodraeth Cymru wybod beth fyddai tanwariant diwedd blwyddyn amcangyfrifedig CFfDLC ar gyfer 2018-19 erbyn Rhagfyr 2019.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 14 Rhagfyr 2018

12. Prydles yr Adeilad

12.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar y sefyllfa bresennol yn ymwneud â phrydles newydd a chostau'r adeilad, a bod y brydles newydd wedi'i drafftio gan ymgynghorydd cyfreithiol CFfDLC ac y dylai gael ei llofnodi cyn bo hir. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn anfon manylion am gostau'r brydles fesul metr sgwâr at Deloitte.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30 Tachwedd 2018

13. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

13.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddatganiadau o roddion neu letygarwch ar gyfer 2018-19 hyd yn hyn.

14. Cwynion

14.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw gwynion i CFfDLC ar gyfer 2018-19 hyd yn hyn.

15. Adroddiad Twyll a Chwythu'r Chwiban

15.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll hyd yn hyn yn ystod 2018-19.

16. Adroddiad ar Ddiogelwch Data TG

16.1 Crybwyllwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data yn ystod 2018-19 hyd yn hyn.

17. Unrhyw fater arall

17.1 Holodd Julie James a fyddai CFfDLC yn parhau i gael adroddiadau ar Ddigwyddiadau Diogelwch TG gan Lywodraeth Cymru ar ôl rhoi'r trefniadau TGCh newydd ar waith. **Cytunwyd** y byddai'r mater hwn yn cael ei godi yn y cyfarfod cyswllt sydd ar ddod rhwng CFfDCL a'r isadran noddi.

Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr **Erbyn:** 5 Rhagfyr 2019

17.2 Cynigiodd Lisa James y dylai CFfDLC ystyried goblygiadau Brexit yn faes ar gyfer monitro risg. **Cytunwyd** y byddai CFfDLC yn ystyried goblygiadau Brexit wrth adolygu ei drefniadau rheoli risg y tro nesaf.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Rhagfyr 2018